Helen Keller: 1880–1968

Y ferch oedd yn fud, dall a byddar

Dyfalbarhad / cadernid

Ym 1880 yn Alabama, yr Unol Daleithiau, ganed merch i Capten a Mrs Keller. Roedd hi fel pob merch fach yn fywiog a byrlymus. Ond fe ddigwyddodd rhywbeth rhyfedd iawn iddi.

Dwyflwydd oed oedd Helen pan gafodd ei tharo'n wael. Roedd y meddygon yn ofni am y gwaethaf.

"Mae'n ddrwg gen i, Capten a Mrs Keller," meddai'r meddyg, "ond dydw i ddim yn credu y bydd hi'n gwella. Mae'n ddrwg iawn gen i." Cofleidiodd Capten a Mrs Keller ei gilydd. Erbyn bore drannoeth gwelwyd bod y ferch fach yn troi ar wella. Galwyd ar y meddyg unwaith eto.

"Mae'n obeithiol iawn y bore 'ma," meddai. Yn wir, dyna fu hanes Helen. Roedd hi'n gwella o ddydd i ddydd. Ond, un diwrnod, pan oedd hi yn yr ardd gyda'i rhieni, fe sylweddolodd ei mam nad oedd hi'n ei chlywed yn gweiddi arni, "Helen, tyrd yma." Ond dal i chwarae yr oedd Helen heb gymryd dim sylw o'r llais oedd yn galw.

"Rwy'n siŵr nad ydi Helen yn clywed," meddai'r fam.

"Na, ddim eisiau clywed mae hi, fel mae llawer iawn o blant yr oed yma," atebodd y tad.

Yn ystod yr wythnosau dilynol fe sylwodd hefyd nad oedd hi'n gweld. Doedd hi chwaith ddim yn gallu siarad. Roedd hyn yn benbleth fawr i'w rhieni. Dechreuodd Helen gamymddwyn. Byddai'n rhedeg o amgylch yr ardd yn sgrechian a gwneud pob math o synau. Pan fyddai ei mam yn mynd i chwilio amdani, byddai Helen yn troi arni ac yn ei brathu. Roedd yn rhaid i'w rhieni wneud rhywbeth i helpu Helen.

Clywsant fod ysgol i blant mud a byddar wedi ei hagor gan Doctor Howe. Aeth ei mam i weld y Doctor ac fe lwyddwyd i gael athrawes i helpu Helen. Anne Sullivan oedd ei henw. Merch ifanc bedair ar bymtheg oed oedd Anne. Doedd hi ddim yn hawdd trin Helen. Yn ystod pryd bwyd byddai'n taflu'r bwyd i bob man a dechrau ymosod ar bawb oedd o gwmpas y bwrdd. Ymosododd fwy nag unwaith ar ei hathrawes. Un waith dyrnodd hi yn ei cheg a chollodd Anne un o'i dannedd.

Yn araf deg daeth Anne a hithau'n ffrindiau. Rhoddodd ddol iddi

ac yna sillafu d-o-l ar ei llaw. Taenodd ddŵr dros ei dwylo ac yna sillafu d-ŵ-r ar ei dwylo. Deallodd Helen fod gan bopeth enw. Yn fuan iawn daeth i ddysgu geiriau trwy ddarllen *braille*. Cyfres o ddotiau oedd y rhain ac o gyffwrdd yn y dotiau â'i bysedd roedd hi'n gallu darllen.

Daeth Helen yn ei thro'n ferch annwyl a dymunol. Roedd hi'n eiddgar iawn i ddysgu. Pan oedd hi'n ddeg oed dechreuodd ddysgu siarad. Byddai'n teimlo ceg a gwddf ei hathrawes. Bu wrthi'n dysgu fel hyn am rai blynyddoedd. Bu'n fyfyriwr a llwyddodd yn ei harholiadau.

Ar ôl cyfnod yn y coleg, aeth Helen ac Anne, ei hathrawes, i fyw ar fferm. Treuliai'r ddwy oriau yn cerdded o gwmpas y fferm a mynd am dro efo'r ci. Roedd Helen yn awyddus iawn i helpu pobl eraill oedd yn fud, byddar a dall. Teithiai o gwmpas y wlad yn sôn am yr hyn oedd wedi digwydd iddi. Byddai'r arian roedd hi'n ei gael yn mynd yn syth i helpu cartrefi ac ysgolion ar gyfer y deillion a'r byddariaid.

Aeth y sôn amdani ar hyd a lled y byd. Hon oedd y ferch, er gwaethaf ei hanawsterau, a wnaeth gymaint i helpu pobl debyg iddi hi ei hun.

"A allodd hi, fe'i gwnaeth."

Marc 14:8

Mae tywyllwch ynof i
Ond gyda thi y mae goleuni.
Yr wyf fi'n unig, ond nid wyt ti'n fy ngadael.
Yr wyf fi'n wangalon, ond nid wyt ti'n fy ngadael.
Yr wyf fi'n aflonydd, ond gyda thi fe geir tangnefedd.
Ynof fi y mae chwerwder, ond gyda thi fe geir amynedd.
Y mae dy ffyrdd di y tu hwnt i ddeall, ond gwyddost beth yw'r ffordd i mi.
Amen.

(Gweddi Bonhoeffer)

Dall, mud a byddar.
Trafodwch yr anawsterau hyn.

Helen Keller: 1880–1968